



TGAU

**3010N10-1**

**DYDD IAU, 13 IONAWR 2022 – BORE**

**LLENYDDIAETH GYMRAEG**

**UNED 1: Barddoniaeth**

**HAEN SYLFAENOL**

**1 awr 15 munud a'ch amser estynedig**

## **DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

## **CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.

**UN CWESTIWN GORFODOL** ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.

## **GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

1. **Darllenwch y DDWY gerdd ganlynol yn ofalus. Yn y cerddi, mae'r beirdd yn rhoi darlun o fywyd anodd i ni.**

**CYMHARWCH y DDWY gerdd gan ddangos sut maen nhw'n DEBYG a/neu'n WAHANOL.**

**Dylech wneud hyn drwy:**

- **ysgrifennu am gynnwys y ddwy gerdd yn eich geiriau eich hun, er enghraifft:**
  - **Pa fath o bethau sy'n anodd ym mywydau'r bobl yn y cerddi?**
  - **Beth sydd wedi newid erbyn diwedd y cerddi?**
  - **Meddyliwch beth yw'r neges yn y ddwy gerdd.**
- **edrych ar y ffordd mae'r beirdd wedi ysgrifennu'r cerddi gan chwilio am O LEIAF BEDAIR NODWEDD ARDDULL/MESUR a dweud pam maen nhw'n effeithiol**
- **nodi pa UN o'r ddwy gerdd apeliodd fwyaf atoch chi gan roi rhesymau dros eich barn.**

**Wrth ateb, cofiwch DDYFYNNU'N BRIODOL A CHYFEIRIO AT ENGHREIFFTIAU PENODOL i gefnogi'ch sylwadau. [40 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

**TAI UNNOS**

**Sbwriel oes yr iâ oedd y cerrig llyfnion  
orweddai'n flêr hyd lannau'r afon:**

**sbarion a shafins cŷn a morthwyl y rhewlif  
a siapiodd bob dyffryn ganrif wrth ganrif:**

**ac â'r sbwriel cododd ein cyndeidiau'n ddyfal  
fwthyn clyd yn nhro'r afon, ar seiliau petryal;**

**gosod carreg ar garreg rhwng gwyll a gwawr,  
a chynnau tân cyn i'r landlord dynnu'r cyfan i lawr;**

**hawlio darn o dir a'i godi'n aelwyd,  
drwy nerth bôn braich troi llafur yn freuddwyd:**

**ar lannau traffyrdd y dinasoedd llwydion,  
ac yng nghesail goncrïd swyddfeydd gweigion,**

**dan bontydd ffyrdd osgoi, mewn meysydd parcio mae rhai  
yn eu dyblau heno hefyd wrthi'n codi tai,**

**rhoi trefn ar sbwriel dan y sêr,  
hawlio darn o dir â bocsys cardbord blêr.**

**Iwan Llwyd**

**(Trowch y dudalen)**

## **DDOE A HEDDIW**

**Roedd ddoe yn cerdded hyd y dref  
yn dal ei ben yn uchel,  
mae heddiw'n gorwedd ar y fainc  
a'i fyd yn dawel, dawel.**

**Roedd ddoe mewn swydd o naw tan bump  
a hedfan a wna'i oriau,  
mae heddiw'n gwyllo'r byd yn troi  
a chyfri'r holl eiliadau.**

**Roedd ddoe mewn car fel brenin balch  
bob dydd yn gyfoethocach,  
heddiw ei gerbyd yw'r ddwy droed  
ac mae'r daith yn troi'n anoddach.**

**Roedd ddoe yn seren uwch y byd  
a phawb yn ffrindiau iddo,  
ond heddiw'n neb ar fin y ffordd  
a'r byd wedi'i anghofio.**

**Ffion Elan**

**DIWEDD Y PAPUR**